

## Y Siôl Werdd

*FFLACH! Merch yn wylo'n afreolus... FFLACH! Drychiolaethau rhyfedd yn llamu o'r dŵr... FFLACH! Babanod noeth, diniwed yn gwingo gan oerfel... FFLACH! Sgrech a chri o ddieter... FFLACH! Dwi'n saff...*

Ar lan Nant Geni, ger Bryn Y Meibion, Llangadwaladr safodd merch ifanc. Roedd ei llygaid llachar yn wyrdd fel emrallt, a'i gwallt gloyw-frown yn llifo'n urddasol heibio'i hysgwyddau esgyrnog. Gorweddai ei hesgidiau ysgol o ledr anghyffyrddus yn blith-draphlith ger ei thraed noeth a oedd yn cael eu goglais yn hamddenol gan bennau'r glaswellt esmwyth yn yr awel fwyn. Ger ei bron cuddia wrych o ddrain a mieri, fel na phetai eisiau i'r pen moel o fryn oedd yn teyrnasu drosto ei weld. Sisialai'r nant gerllaw gan swyno clustiau Myfi. I'r dde, yn dalsyth safai byddin o goed yw hynafol. Lluoedd deiliog a oedd yn cuddio cyfrinach na wyddai neb mohoni; cyfrinach a fu'n llechu rhwng y gwreiddiau ac yng nghysgodion duaf y goedwig. Cyfrinach a oedd yn aros i gael ei ddarganfod. Y tu ôl iddi, coda mynydd Sgwennant yn serth. Cawr o fynydd a'i lethrau caregog byth a beunydd yn cythruddo tad Myfi pan fyddai'n ceisio casglu'r defaid 'styfnig oddi arno! Ond rhywbeth gwahanol fyddai'n cythruddo Myfi ynglŷn a'r lle; rhywbeth nad oedd hi'n medru ei esbonio, ond gwyddai ei fod yno, bob amser o'i hamgylch...

Ers y crud, roedd Myfi'n gwybod bod rhywbeth yn wahanol yn ei chylch. Rhywbeth yr oedd wedi methu cael esboniad amdano- nid gan ei rhieni, na'r un llyfr ffeithiol o lyfrgell pitw'r ysgol. Ofer oedd pob 'gŵgl search' roedd hi wedi arall-eirio ym mhob ffordd posib. Doedd hyd yn oed Gelert ei chi ffyddlon na fyddai byth, fel rheol, yn siomi neb na dim, yn gallu cynnig esboniad. Roedd hon yn sefyllfa hollol annheg! Er hynny, roedd Myfi wedi ceisio anwybyddu'r teimlad rhyfedd yng nghrombil ei henaid, ac wedi ceisio parhau a'i bywyd. Ond yn ddiweddar, roedd rhywbeth yn corddi ei stumog ac yn trymhau ei chalon, ac os rhywbeth, yn ei drysu'n ofnadwy! Roedd Myfi wedi hen arfer gweld neu glywed pethau nad oedd eraill yn medru. Ar sawl achlysur, roedd wedi darogan neu ragweld pethau cyn iddynt ddigwydd. Serch hynny, dim ond pethau go amwys oedd y rheini, a gan amlaf gallai Myfi yn hawdd wneud esgusodion dros ei theimladau anghyffredin (er enghraifft diffyg cwsg neu ddyfalu lwcus). Ers misoedd bellach, roedd Myfi wedi bod yn cael breuddwydion rhyfedd... yr un hen freuddwyd dro ar ôl tro ble byddai'n gweld merch ifanc ddieithr yn wylo a babanod â golwg truenus arnynt. Clywai hefyd sgrechian anniodefol, ac yn aml, atseiniai sŵn y sgrech yn ei phen ymhell ar ôl amser deffro. Doedd hi'n methu'n lân a deall y freuddwyd! A oedd rhywbeth arallfydol yn ceisio cysylltu â hi? Wyddai hi ddim. Yr unig beth yr oedd yn sicr ohono oedd mai yma yr oedd wedi ei leoli, ble roedd hi'n sefyll ger Nant Geni. Ond roedd rhywbeth yn wahanol. Yn y freuddwyd, edrychai'r lle yn fwy... newydd. Rhywsut, roedd popeth i'w weld yn iau na beth oedd o gwmpas Myfi'n awr. Yn fwy amrwd.

Beth bynnag, roedd hi'n ddiwrnod gwyntog o wanwyn, ac roedd Myfi wedi dod yno i fyfyrrio. Er y breuddwydion rhyfedd, dyma oedd un o'i hoff lecynnau yn y byd. Cofiodd Myfi am pan roedd ei Nain yn fyw. Ei Nain oedd ei ffrind pennaf, a'r unig berson a oedd yn deall ac yn gwrando ar Myfi. Bob wythnos yn ddi-ffael, byddai ei Nain yn mynd a Myfi am dro yno ers oedd hi'n ddim o beth, ac yn adrodd storïau am yr ardal a'r bobl o'i chwmpas. Doedd dim teimlad yn well gan Myfi na gafael yn llaw bregus, cynnes ei Nain, a

chyd-anadlu persawr y briallu a'r blodau gwyllt o'u hamgylch. Doedd hynny ddim yn digwydd bellach. Doedd peraroglau'r blodau ddim mor felys ers i Nain adael.

Wrth i Myfi gerdded yn erbyn y gwynt a'i meddwl yn crwydro, ymddangosodd siâp o dan y goeden ger y Nant fywiog ac yn ddi-rybudd... **SGRECH!!!** Neidiodd Myfi o'i chroen a rhewodd ei synhwyrâu. Dyna'r sgrech annaeafol yr oedd wedi ei glywed yn ei breuddwyd! Edrychodd i gyfeiriad y sŵn ac yno o'i blaen yn crynu gan oerfel ac yn wylo gan boen yr oedd merch ifanc, dim ond mymryn yn hŷn na hi ei hun. Roedd hi'n wyn fel y galchen a'i llygaid fel dwy soser wlyb yn ymbil am gymorth. Brysiodd Myfi tuag ati,

"Wyt ti'n iawn?". Roedd rhyw gryndod wedi codi drwy gorff Myfi, a ias wedi rhewi ei hasgwrn cefn. Atebodd y ferch ddim, dim ond ysgwyd ei phen mewn dryswch a cheisio llusgo'i hun oddi wrth Myfi. Yna, yn ddi-rybudd, **CHWAP!** Ymddangosodd creadur rhyfedd â chlustiau pigfain a llygaid coch ger traed Myfi.

"Pam wyt ti'n syllu arna i fel 'na ferch?" holodd yn bryfoclyd, "Ddysgodd dy Nain di ddim manars i ti dwed?" crechwenodd y creadur, ac yna sylweddolodd Myfi beth ydoedd. Roedd ei Nain wedi adrodd y stori am Fryn Ellyll ar ochr arall y dyffryn iddi sawl gwaith, ac wedi disgrifio golwg ryfedd a natur ddi-gywilydd yr ellyllon i'r dim o edrych ar hwn. Wrth gwrs, doedd Myfi erioed wedi ystyried credu yn y storïau ffantasiol hyn, ond nawr, roedd unrhyw beth yn bosib. Wedi'r cyfan, roedd **ELLYLLEN** o'i blaen! Gan dorri ar draws llid yr ellyllen, clywodd Myfi gri gwan, bregus. Edrychodd yn ôl i gyfeiriad y ferch druenus, ac yno ar y cerrig mân gorweddaï dau faban bach noeth, a'u croen yn binc amrwd gan chwythu di-drugaredd y gwynt. Beth wnâi hi?!?!? Roedd rhaid helpu'r babanod a'r ferch ar frys, neu byddant yn siŵr o farw gan frathiad yr oerfel!!!

"Babanod, bach, bach... o, am annwyl" gwichiodd llais treiddgar yr ellyllen gyda chwerthiniad. Syllodd Myfi arno yn llawn anghrediniaeth, "Wel, wyt ti am wneud rhywbeth, neu dim ond syllu ferch?" holodd gan droi at Myfi y tro hyn, ei wyneb wedi crebachu fel petai'n dynwared ci clwyfedig.

"Wel byddai'n braf cael help llaw!" atebodd Myfi, gan geisio peidio codi'i llais a dychryn y ferch oedd newydd rhoi genedigaeth, ond gyda'r bygythiad tuag at yr ellyllen yn amlwg. *Am ryfedd, meddyliodd, dwi'n dadlau gydag ellyllen!*

"O'r gorau, gan dy fod wedi holi mor garedig, wrth gwrs wnâ i helpu," saethodd yr ellyllen yn ôl ati, cyn troi i glochdar rhyw gân ryfedd, mewn llais syfrdanol o ddwfn:

*"Deuwch oll o'r arall fyd,  
I helpu dynion gyda'ch hud...  
I'r achos hwn bydd angen gwlan  
I oresgyn llosg yr aflan dân"*

Er mawr syndod i Myfi, ymddangosodd hanner dwsin yn fwy o'r creaduriaid pigfain-glust o'r coed a'r gwrychoedd gerllaw, ac ar yr alwad "**GWEHYDDWCH**" gan yr ellyllen gyntaf, aeth y criw ati ar unwaith i wehyddu'n fedrus. Edrychent fel haid o wenyn yn plethu a chyd-dawnsio'n chwim. O fewn dim, lapiodd un o'r ellyllon y siôl werdd fwyaf cywrain a welodd Myfi erioed o amgylch yr efeilliaid eiddil ac er syndod i bawb mwmialodd y ferch,

"Cymer nhw", a llewygodd yn y fan a'r lle.

Yn ei dryswch a'i phanig, cododd Myfi'r babanod llesg yn ei breichiau, a rhedeg nerth ei thraed i fyny Mynydd Sgwennant ac i'r bwthyn agosaf. Ffrwydrodd i mewn drwy'r drws, a darganfod ei hun yng nghanol cegin hen wraig garedig yr olwg.

"R'arswyd, be' sy' fy merch i?" holodd yr hen wraig a dryswch ar ei hwyneb.

"Wnewch chi ofalu am rhain am funud os gwelwch yn dda?" amneidiodd tuag at y bwndel yn ei breichiau, "Mae merch wedi llewygu ar ochr Nant Geni, ac mae ofn arna i y bydd hi'n marw o'r oerfell!" Ilifodd y geiriau o'i cheg yn un rhuthr o ofid.

"Wrth gwrs, tyrd a nhw yma. Cer i nôl y ferch iddi gael cynhesu."

Rhuthrodd Myfi'n ôl at y drws, a gwibiodd i lawr y llethr tuag at y nant... Ond pan gyrhaeddodd, doedd dim byd yno. Roedd y dyffryn yn gwbl wag, yn gwbl dawel... *Ble'n y byd aeth yr ellyllon?* meddyliodd, *Beth ddigwyddodd i'r ferch?*

"Ble mae'r babanod?" holodd Myfi ar ôl mynd yn ôl at y bwthyn wedi chwilio'n ofer am y ferch. Roedd hi ar dân eisiau eu gweld.

"Babanod? Pa fabanod? A phwy wyt ti, ga i ofyn?" atebodd y wraig yn ddryslyd. Anwybyddodd Myfi ei chwestiwn olaf.

"Y babanod dwi newydd eu rhoi i chi. Ble mae'n nhw?" holodd yn fwy taer y tro hwn. Pam na wnâi'r ddynes ddeall?!?

"Mae'n ddrwg gen i ferch ond dwi erioed wedi eich cyfarfod o'r blaen. Pa fabanod ydych chi'n sôn amdanynt?"

Beth oedd yn digwydd?!? Roedd y ferch wedi diflannu, ac roedd Myfi'n sicr ei bod newydd roi'r babanod a'r siôl werdd yn gadarn yn nwylo'r hen wraig. Wrth droi tuag at y drws i fynd, a'i phen yn rhy llawn o gwestiynau i ymddiheuro, daliodd lun mewn hen, hen ffrâm ei sylw. Yn gwenu'n siriol yn y ffrâm roedd wyneb amlwg yr hen wraig, hithau sawl degawd yn iau, ac yn ei chôl roedd dau faban bach. O amgylch ei hysgwyddau, wedi ei lapio'n dynn, roedd siôl werdd...